Ysgol Dyffryn Ogwen
Bydded Goleuni
www.ysgoldyffrynogwen.org
Ffôn: 01248 600291

Bwletin i Rieni - Mai 2014

Dyddiadau Pwysig

26.05.14 – 30.05.14
Gwyliau -
Hanner Tymor Sulgwyn

18.06.14
Seremoni Proffil Personol

Ymweliad Cynradd
01.07.14
Blwyddyn 6

Ymweliad Cynradd
15.07.14
Blwyddyn 5

18.07.14
Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf

14.08.14
Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau Lefel A/AS

21.08.14
Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau TGAU

Noson o Adloniant

Cynhaliwyd Noson o Adloniant yn neuadd yr ysgol ar nos Fercher, Mai 14eg. Y prif reswm dros gynnal y noson oedd er mwyn i'r unigolion a'r grwpiau sydd wedi bod yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd gael cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa ehangach, ac, yn achos ambell rai, i gael un ymarfer arall o flaen cynulleidfa cyn yr Eisteddfod Genedlaethol!

Un elfen braf iawn o'r noson oedd fod yr ysgolion cynradd hefyd yn cymryd rhan a chafwyd perfformiadau rhagorol gan yr unigolion a'r grwpiau. Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn gwerthfawrogi'n fawr eu cefnogaeth i'r noson. Yr ydym yn dymuno'n dda iawn i bawb o'r cylch fydd yn perfformio yn y Bala ddiwedd y mis.

Braf iawn oedd gweld y neuadd yn llawn ar gyfer y noson, a llwyddwyd i gasglu £600 tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

Cancer Research Wales Ymchwil Canser Cymru
all money raised is spent in Wales

Noson Dathlu John Ogwen

Bu'r Côr Hŷn yn cymryd rhan mewn noson i ddathlu pen-blwydd John Ogwen yn 70 yn y Clwb Criced ar nos Fercher, Mawrth 26. Recordiwyd y noson ar gyfer ei darlledu gan Radio Cymru ar Ddydd Gwener y Groglith. Roedd yn noson ddifyr iawn gyda John Ogwen yn trafod gyda'r gynulleidfa ac yn adrodd straeon di-ri am ei brofiadau yn y byd actio dros y blynyddoedd. Perfformiodd y côr ddwy gân, sef trefniant o'r gân draddodiadol 'Wrth Fynd Hefo Deio i Dywyn' a 'Tyrd am Dro' allan o'r sioe gerdd Streic a gomisiynwyd gan yr ysgol i gofféu canmlwyddiant Streic Chwarel y Penrhyn. Llongyfarchiadau i'r disgyblion yn y côr – a'r cantorion ychydig mwy profiadol!

Gwyliau yn ystod y tymor ysgol

Yn debyg i bob ysgol uwchradd arall yng Ngwynedd, mae Llywodraethwyr yr ysgol wedi penderfynu na fydd yr ysgol yn cefnogi unrhyw gais gan rieni i dynnu disgybl allan o'r ysgol i fynd ar wyliau teuluol ym mlynyddoedd 10 ac 11, a hyd at 5 diwrnod yn unig ym mlynyddoedd 7 i 9.

Gofynnwn am eich cefnogaeth i beidio tynnu eich plentyn o'r ysgol i fynd am wyliau teuluol o gwbl os yw eich plentyn ym mlynyddoedd 10 ac 11, a hyd at 5 diwrnod yn unig ym mlynyddoedd 7 i 9.

Mae digon o dystiolaeth i ddangos fod colli dyddiau o'r ysgol yn ddi-angen yn gallu cael effaith andwyol ar addysg plant. Gofynnwn yn garedig i chwi gadw hyn mewn cof wrth drefnu gwyliau teuluol yn y dyfodol.

Eisteddfod y Sir / Genedlaethol

Bu criw da o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn cymryd rhan yn yr Eisteddfodau Sir yn ddiweddar. Bu perfformiadau graenus gan bawb a phob lwc yn arbennig i Beca Nia a Rhiannon Llwyd ar y ddeuawd offerynnol, Hannah Cook ar y llefaru i ddysgwyr, a'r criw yn yr ymgom - Owain Morgan, Martha Evans, Buddug Roberts a Sophie Williams. Bydd y disgyblion yma'n cynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala ddiwedd y mis.

Mae nifer o'n disgyblion wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd:

Beca Nia – 1af Rhyddiaith i Flwyddyn 7
Buddug Roberts – 1af Rhyddiaith i Flwyddyn 9
Hannah Cook – 2il Rhyddiaith i Ddysgwyr Blynyddoedd 8 a 9
Martha Glain – 1af Gwaith Creadigol 3D i Flwyddyn 9
Martha Glain – 2il Gwaith Lluniadu 2D i Flwyddyn 9

Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt! Mae'r ysgol yn falch iawn o'u llwyddiannau.

Bwletin Ysgolion BBC

Unwaith eto eleni, bu'r ysgol yn rhan o Fwletin Ysgolion y BBC, 2014. Darlledwyd nifer o eitemau difyr ar ein gwefan i'r byd a'r betws eu gweld. Bu Elen Wyn yn holi Mr Godfrey Northam am ddyfodol Canolfan Rachub a chafwyd eitem ddifyr gan Elin Rowlands a Ffion Elin Roberts o flwyddyn 9 am griw o ferched Clwb Ieuenctid Bethesda oedd wedi bod yn creu gemau ar ffurf Ap ar gyfer ffonau symudol a thabledi. Yn ogystal â hyn roedd cyfle i glywed eitem gan Owain Morgan a Ffion Elin Roberts am ddatblygiad Neuadd Ogwen ar y Post Prynhawn ar Radio Cymru. Ar gyfer cynhyrchu'r eitem cafodd y criw eu mentora'n ofalus gan un o gyflwynwyr y Post Prynhawn, Nia Thomas. Roedd y profiad yn un gwerthfawr iawn a diolch iddi am ei gwaith gyda'r disgyblion.

Sgwad Sgwennu Gwynedd

Eleni, mae pedair merch o'r ysgol wedi cael eu dewis i fod yn rhan o Sgwad Sgwennu Gwynedd dan ofal Llenyddiaeth Cymru. Cafodd Buddug Roberts, Esme Crowe, Elen Wyn a Martha Evans y cyfle i fynd i wylio sioe arbrofol 'Wet Sounds' ym mhwll nofio Bangor. Roedd y pedair, ar ôl y sioe, yn rhan o weithdy gyda'r awdures Rachel Willie a bu cyfle i drafod y sioe ac ysgrifennu adolygiad ohoni. Bydd y pedair yn mynychu gweithdai ysgrifennu unwaith eto cyn diwedd y tymor. Edrychwn ymlaen i gael darllen eu gwaith.

Masnach Deg

Daeth Liz Perkins i'r ysgol i siarad am Fasnach Deg fel rhan o'n gwersi Bagloriaeth Cymru. 'Rydym yn gorfod dysgu am gyfrifoldeb yr unigolyn wrth hybu Dinasyddiaeth Fyd-eang. Roedd Liz Perkins yn siarad am ffermwyr siocled yng ngwledydd y trydydd byd. Dysgom fod y cwmni Masnach Deg yn helpu'r sefyllfa yng ngwledydd y trydydd byd trwy wneud yn siwr bod y ffermwyr yn cael prisiau teg am eu ffa coco gan y gwledydd cyfoethog sydd yn eu prynu i wneud siocled a chael elw mawr. 'Rydym yn gallu helpu'r gwledydd trwy brynu cynnyrch Masnach Deg. Mae cynnyrch Masnach Deg ychydig bach yn ddrytach ond mae'n werth hyn oherwydd mae'n sicrhau nad oes plant yn gweithio i wneud y nwyddau ac mae'r ffermwyr sydd yn gwneud y cynnyrch yn gallu fforddio cynnal eu teuluoedd.

Cara Thomas (Blwyddyn 13)

Bara Caws – Glanaethwy

Dyma lun o'r disgyblion a fu'n cymryd rhan yng nghynhyrchiad Cwmni Theatr Bara Caws – 'Dros y Top' yn ddiweddar – Esme Crowe, Cadi Roberts, Owain Morgan, Manon Hughes, Elin Cain ac Alys Haf. Braf oedd gweld eu bod wedi mwynhau'r profiad a chael gweld y cynhyrchiad hefyd. Diolch iddynt am eu gwaith da a diolch i athrawon yr Adran Gymraeg am eu hyfforddi.

Arholiadau Allanol

Mae disgyblion blynyddoedd 10, 11, 12 ac 13 yn brysur yn paratoi ar gyfer arholiadau allanol sydd eisoes wedi cychwyn. Mae gan bob disgybl gopi o'i amserlen bersonol a chyfarwyddiadau ynglŷn â'r arholiadau. Mae'n bwysig fod y disgyblion yn gyfarwydd â'u hamserlen a bod yr offer cywir ganddynt ar gyfer pob arholiad. Disgwylir presenoldeb llawn hyd at yr arholiadau neu fe fydd y myfyrwyr yn colli gwersi pwysig a gwybodaeth hanfodol ynglŷn â'r arholiadau. **Os bydd eich mab/merch yn absennol ar fore'r arholiad oherwydd salwch, dylid cysylltu â'r ysgol cyn 8:30am. Bydd yn rhaid cyflwyno nodyn gan y meddyg yn egluro'r absenoldeb.**

Dymunwn yn dda i'n disgyblion i gyd yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn.

Clwb Gwaith Cartref

Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 hyd at 4:20. Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.
Mae croeso i ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 fynychu'r Clwb.

Coleg Undydd, Rhydychen

Bu Bethan Hughes a Gwynfor Rowlinson ar ysgol undydd yn Rhydychen. Roedd 1500 wedi ymgeisio am le i 500. Yn ogystal cafodd y ddau eu derbyn ar gwrs preswyl yn Rhydychen dros yr haf.

Cwrs Creu 'Apiau'

Bu pedair o enethod gyda'r clwb ieuenctid yng Ngwersyll Glan-llyn dros gyfnod o dri phenwythnos yn derbyn hyfforddiant ar sut i greu 'apiau' - gemau ar gyfer ffonau symudol. Y pedair oedd Katie Humphreys, Shannon Williams, Ceri Ellen Speddy a Lois Ashton. Allan o'r holl ddisgyblion oedd ar y cwrs enillodd Katie ffôn symudol am greu'r 'ap' gorau.

Llwyddiant Bowlio

Llongyfarchiadau mawr i Sion Guto Roberts, blwyddyn 11 sydd wedi cael ei ddewis i garfan tîm Cymru dan 18 i chwarae 'Crown Green bowls'. Pob lwc Sion.

Cinio Ysgol am Ddim/Grant Gwisg Ysgol

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, ee mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgyblion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.
Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol. Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor.
Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau 01286 682689.

Cinio Ysgol am Ddim

Efallai fod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:-

* Cymorth Incwm
* Lwfans Chwilio am Waith
* Credyd Treth Plant (yn unig)
* Gwarant Credyd Pensiwn

Grant Gwisg Ysgol

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

* Cymorth Incwm
* Lwfans Chwilio am Waith
* Credyd Treth Plant (yn unig)
* Gwarant Credyd Pensiwn

Gwobr Dug Caeredin

Dros y flwyddyn diwethaf bu Mark Hughes, Ashley Rowlands, Peter Stephens, Cairon Jones, Dewi Griffith a Dion Harris o flwyddyn 11 yn brysur iawn yn ceisio ennill Gwobr Dug Caeredin. Uchafbwynt y wobr oedd cerdded o Fethesda i Wern Gof Isaf, gwersylla noson ac yna cwblhau y daith drwy gerdded i Lyn Crafnant y diwrnod canlynol gan gario popeth oedd ei angen ar eu cefnau. Da iawn chi hogia!

Rygbi – Cwpan Eryri

Llongyfarchiadau i'r tîm dan 13 a enillodd gwpan Eryri 20-12, cafodd Shaun Roberts un cais a Gruff Roberts ddau gais.

Athletau

Llongyfarchiadau i Beca Nia a Sophie Ellis fu'n cynrychioli Ysgolion Gogledd Orllewin Cymru yn Athletau dan do Cymru yn ddiweddar. Daeth tîm y genethod dan 13 yn 3ydd drwy Gymru a chafodd Sophie Ellis y fedal efydd am daflu'r pwysau yn y gystadleuaeth unigol. Cafodd Beca drydydd gyda'r tîm ras gyfnewid hefyd.

Pêl-rwyd

Bu'r tîm pêl-rwyd dan 14 yn cymryd rhan mewn cynghrair i ysgolion Arfon yn ddiweddar. Cafwyd ambell i fuddugoliaeth ar hyd y ffordd ond daeth yr uchafbwynt gyda thwrnamaint ym Maes Glas. Enillwyd y gêm yn erbyn Dyffryn Nantlle B o 11-2 a chollwyd y gêm yn erbyn Bangor o 4-3! Aeth y genethod ymlaen i'r gystadleuaeth cwpan lle chwaraewyd yn erbyn tîm A Dyffryn Nantlle. Roedd yn gêm gyffrous iawn gyda'r sgôr amser llawn yn 3-3. Aeth y gêm ymlaen i amser ychwanegol ond colli o 2-1 fu hanes Ysgol Dyffryn Ogwen ar ôl gêm gystadleuol tu hwnt. Da iawn genod!

Cludo Baton Gemau'r Gymanwlad – Glasgow 2014

Llongyfarchiadau i Mari Davies ar gael ei dewis i gludo baton Gemau'r Gymanwlad ym Mhlas Menai. Bu hefyd yn cario torch y Gemau Olympaidd dros Bont Menai ddwy flynedd yn ôl.

Mae Mari a Iago ei brawd hefyd yn hwylwyr profiadol a rhagorol ac yn ddiweddar llwyddodd y ddau i ddod yn bencampwyr ieuenctid Cymru mewn cystadlaethau ym Mhwllheli dros y Pasg – Iago yn unigol a Mari yn un o ddwy. Mae Mari hefyd yn bencampwr Prydain. Cafodd Iago wahoddiad gan Gymdeithas Hwylio America i dreulio ychydig ddyddiau yn ymarfer gyda'u carfan nhw dros yr haf. Cyfle anhygoel.

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r ddau.